

**Ysgol Aberconwy**

# **CWESTIYNAU CYFFREDIN**

---

YSGOL  
ABERCONWY



**Edrychwch ar ein gwefan am fanylion pellach:  
[www.aberconwy.conwy.sch.uk](http://www.aberconwy.conwy.sch.uk)**

**Ebostiwch ni yma:  
[openevening@aberconwy.conwy.sch.uk](mailto:openevening@aberconwy.conwy.sch.uk)**

**Medi/Hydref 2020**

# IEITHOEDD YN ABERCONWY

## Pa ieithoedd fydd fy mhlentyn yn dysgu yn Ysgol Aberconwy?

Mae disgyblion yn astudio Saesneg, Cymraeg, Almaeneg, Ffrangeg, Mandarin a Sbaeneg yn Ysgol Aberconwy. Mae disgyblion yn dysgu Ffrangeg **neu** Almaeneg fel ieithoedd tramor modern yn CA3. Mae disgyblion yn gallu dewis astudio Sbaeneg, Ffrangeg neu Almaeneg fel cwrs TGAU neu Level A.

## A fydd fy mhlentyn yn gallu dewis pa iaith y byddant yn ddysgu yn CA3?

Mae disgyblion yn dysgu Ffrangeg neu Almaeneg yn ddibynnol ar pa ddsbarth y maent ynddo. Os ydych yn teimlo yn gryf bod eich plentyn angen astudio un iaith yn hytrach na'r llall dyliech chi adael i'r ysgol wybod yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

## A fydd fy mhlentyn yn dysgu iaith arall os oes ganddynt ADY?

Mae pob disgybl yn cael y cyfle i ac yn cael eu hannog i astudio pob pwnc yn CA3 os ydynt yn gallu.

## Oes yna gyfleoedd i ymarfer yr ieithoedd dramor?

Bydd disgyblion sydd yn astudio ieithoedd yn Ysgol Aberconwy yn cael y cyfle i ymarfer yr ieithoedd hynny ar deithiau y bydd yr adran ieithoedd tramor modern yn eu trefnu.

## **Mae fy mhlentyn wedi gwneud cynnydd mawr wrth ddatblygu eu sgiliau siarad Cymraeg yn y cynradd. A fydd Ysgol Aberconwy yn eu cefnogi i gario ymlaen hefo hyn?**

Mae pob disgybl yn astudio Cymraeg hyd ddiwedd CA4. Mae rhai disgyblion aeth i ysgolion cynradd Cymraeg neu sydd yn dod o gartrefi Cymraeg yn gallu astudio Cymraeg fel iaith gyntaf o flwyddyn 7 ymlaen. Maent hefyd yn gallu astudio DDB yn ddwyieithog ym mlwyddyn 7. Mae gwersi Ffrangeg ac Almaeneg yn cael eu dysgu trwy Saesneg a Cymraeg er mwyn helpu disgyblion i ddysgu'r sgil o drawsiaethu. Mae athrawon cofrestru blwyddyn 7 i gyd yn siaradwyr Cymraeg ac yn annog defnyddio'r iaith o amgylch yr ysgol.

## **Sut mae'r ysgol yn datblygu hunaniaeth Cymraeg?**

Mae pob disgybl yn datblygu eu sgiliau iaith yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Aberconwy. Maent yn cael y cyfle i ddysgu am draddodiadau cymreig fel yr Eisteddfod Ysgol ac eisteddfod yr Urdd a dathliadau fel dydd gwyl Dewi. Mae Blwyddyn 7 yn cael y cyfle i fynd i Glan Llyn lle maent yn cael defnyddio'r iaith mewn awyrgylch gwahanol tra'n gwneud ffrindiau newydd. Mae disgyblion yn gallu defnyddio clwb y Caban yn ystod amser cinio i gymdeithasu yn y Gymraeg. Bydd amryw o weithgareddau yn cael eu trefnu yn y Caban gan asiantaethau fel yr Urdd a menter iaith.

## **Rydym wedi symud i'r ardal yn ddiweddar a nid ydym yn gallu siarad Cymraeg. A fydd fy mhlentyn yn dal i cael gwersi Cymraeg?**

Mae pob disgybl yn astudio Cymraeg hyd at ddiwedd CA4. Mae dosbarthiadau Cymraeg yn cael eu gosod yn ol gallu. Mae gan yr adran Gymraeg enw da ac mae pob disgybl yn gwneud cynnydd yn yr iaith.

# DOSBARTHIADAU YN ABERCONWY

## A fydd fy mhlentyn yn yr un tŷ a'u teulu?

Bydd pob disgybl yn rhan o un o'r pedwar tŷ pan fyddant yn ymuno ag Aberconwy: Llugwy, Crafnant, Dilyn neu Hiraethlyn. Yn draddodiadol, gosodwyd disgyblion yn yr un tŷ â'u brodyr a chwiorydd ond mewn ymateb i adborth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae rhieni wedi dweud eu bod yn teimlo ei bod yn bwysicach eu bod yn cael eu rhoi yn yr un grŵp â ffrindiau pan bo modd. Mae'r tîm trosglwyddo yn ymweld â'r ysgolion cynradd sy'n bwydo Aberconwy yn nhymor yr Haf ac mae'r disgyblion yn gallu enwi ffrind yr hoffent fod yn yr un dosbarth a nhw. Rhoddir cyfle i rieni nodi dewis yn y llyfryn Croeso a roddir allan yn nhymor yr Haf.

## A fydd y disgyblion yn cael eu setio ym mlwyddyn 7?

Mae disgyblion yn dechrau'r flwyddyn mewn grwpiau gallu cymysg yn eu grwpiau dosbarth. Fe'u rhoddir mewn set yn Saesneg a Mathemateg rhwng hanner tymor mis Hydref a'r Nadolig. Penderfynir ar y setiau ar sail sgor darllen, asesiadau mewnol a'r profion sylfaenol y mae pob disgybl yn eu cwblhau ar ddechrau blwyddyn 7. Mae'r disgyblion wedi'u setio yn Cymraeg o'r dechrau yn seiliedig ar asesiadau athrawon o'r ysgolion cynradd.

# CEFNOGAETH YN ABERCONWY

## Pa gefnogaeth sydd ar gael os yw fy mhlentyn yn ei chael hi'n anodd?

Mae gennym system fugeiliol ragorol yn Ysgol Aberconwy. Mae gan bob blwyddyn bennaeth blwyddyn a mentor a fydd yn arwain ac yn cefnogi'ch plentyn yn ystod eu hamser yma yn yr ysgol. Mae'r mentor yn aelod o staff nad yw'n addysgu ac sydd felly ar gael yn ystod y dydd pe bai angen cefnogaeth ar eich plentyn. Mae'r Pennaeth Blwyddyn a'r mentor yn ffurfio perthynas dda gyda disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau bod pob disgybl yn gallu cyflawni ei lawn botensial.

## **Mae gan fy mhlentyn ADY. Sut byddwch yn eu cefnogi?**

Byddwn yn trafod cynnydd eich plentyn ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol gyda'r ysgol gynradd fel rhan o'r broses drosglwyddo. Os oes gan eich plentyn ADY, bydd ein cydlynnydd ADY yn ymweld â'r ysgolion cynradd i gasglu gwybodaeth ac i ddechrau'r broses o gynllunio i gefnogi'ch plentyn pan fyddant yn cyrraedd yma gyda ni. Bydd y cydlynnydd yn rhannu gwybodaeth a strategaethau gyda'r athrawon i sicrhau bod eich plentyn yn cael cefnogaeth effeithiol. Byddant hefyd yn trefnu cwrdd â chi i drafod anghenion eich plentyn.

## **Mae Ysgol Aberconwy wedi datblygu enw da am gefnogi disgyblion ag ASD. Pa gefnogaeth sydd ar gael ar eu cyfer?**

Rydym wedi datblygu ein hadnodd ein hunain o'r enw 'PONTIO' i gefnogi disgyblion ag awtistiaeth. Trwy drafod gyda'r ysgolion cynradd, mae grŵp bach o ddisgyblion yn cael eu nodi ar gyfer cofrestru yn Pontio sy'n golygu y byddant yn cofrestru yno yn hytrach na dosbarth cofrestru arferol. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt gynllunio ar gyfer newidiadau ac i baratoi ar gyfer y diwrnod gyda chefnogaeth staff Pontio. Mae gan grŵp ehangach o ddisgyblion fynediad i Pontio yn ystod y dydd ac maent yn gallu dod i Pontio os ydynt yn cael eu gorlethu mewn gwrs, angen amser datgywasgiad neu gael sesiwn blwch offer lle gallant weithio gyda staff Pontio ar feysydd penodol fel datblygu sgiliau cyfathrebu neu drefnu. Mae Pontio ar agor amser egwyl a chinio i ddisgyblion nad ydyn nhw'n mwynhau bod ar yr iard.

## **Beth yw Tegfan?**

Darpariaeth y Sir ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth fel rhan o Ysgol Aberconwy ydi Tegfan. Mae mynediad i Tegfan trwy broses cymedroli ADY y Sir. Mae Tegfan yn diwallu anghenion disgyblion ag awtistiaeth neu sydd ag anawsterau niwroddatblygiadol ac sy'n ei chael hi'n anodd i fynychu'r brif ffrwd. Mae staff Tegfan yn gweithio'n agos gyda staff Pontio i gefnogi disgyblion ac i ddarparu'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion tra'u bod gyda ni yn Ysgol Aberconwy.

## **Beth yw ABCD?**

Darpariaeth cymorth dyslecsia ysgolion uwchradd Sir Conwy ydi ABCD ac mae'n rhan o Ysgol Aberconwy. Rhoddir lle i ddisgyblion yn ABCD trwy Banel Cymedroli ADY y sir. Mae disgyblion ABCD y'n mynychu dosbarthiadau prif ffrwd, gyda rhywfaint o gefnogaeth yn y dosbarth yn ogystal ac o fewn yr adnodd ei hun. Mae Ysgol Aberconwy wedi cynnal ei statws 'Crested' er 2007, a ni yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd â'r wobwr bwysig hon.

## **Beth ddyliwn i wneud os ydi fy mhlentyn yn cael eu bwlio?**

Os ydych chi'n poeni bod eich plentyn yn cael eu bwlio mae'n rhaid i chi annog eich plentyn i ddweud. Dylent siarad â'u mentor neu tiwtor dosbarth yn y lle cyntaf. Gallwch hefyd gysylltu â mentor neu bennaeth blwyddyn eich plentyn. Byddant yn ymchwilio i'ch pryderon ac yn dilyn protocol yr ysgol i ddatrys y sefyllfa cyn gynted â phosib.

## **Beth ydi'r 'School Gateway App'?**

Dyma Ap yr ysgol ar gyfer cyfathrebu â rhieni. Gallwch wneud taliadau gan ddefnyddio'r Ap ac rydych hefyd yn gallu dilyn cofnod presenoldeb eich plentyn, log ymddygiad a llwyddiant, adroddiad eich plentyn yn ogystal â negeseuon gan yr ysgol. Bydd gwybodaeth am fewngofnodi i'r Ap yn cael ei rannu â rhieni yn ystod yr wythnos drosglwyddo.

## **A fydd Ysgol Aberconwy yn helpu hefo'r broses o drosglwyddo?**

Bydd y broses o drosglwyddo yn cychwyn yn nhymor yr haf ym mlwyddyn 5 lle gwahoddir disgyblion o'r ysgolion cynradd am ddiwrnod blasu yn Ysgol Aberconwy. Bydd y tîm trosglwyddo wedyn yn ymweld â'r ysgolion cynradd yn nhymor yr Hydref ym mlwyddyn 6 i rannu gwybodaeth am yr ysgol. Yna byddwn yn treulio peth amser gyda'r athrawon yn casglu gwybodaeth am eich plentyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau yma yn Ysgol Aberconwy. Bydd y cydlynnydd ADY hefyd yn ymweld â'r ysgol ac yn mynychu adolygiadau blynyddol ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r wythnos bontio fel arfer yn digwydd yn ystod wythnos gyntaf mis Gorffennaf.

## **Beth fydd yn digwydd yn ystod yr wythnos bontio?**

Gwahoddir disgyblion blwyddyn 6 sydd wedi cael lle yn Ysgol Aberconwy i fynychu'r wythnos drosglwyddo a gynhelir fel arfer ar ddechrau mis Gorffennaf. Anfonir gwybodaeth at yr ysgolion cynradd ymlaen llaw ynglŷn â chcludiant, gwisg ysgol a chinio ysgol ar gyfer yr wythnos drosglwyddo. Bydd y rhaglen wedi'i chynllunio'n ofalus i gynnwys sesiynnau am sut i ddefnyddio'r ffreutur, cwrdd â'r tiwtor dosbarth, taith o amgylch yr ysgol, helpa drysor a blas ar rai o'u gwersi. Bydd y Pennaeth Blwyddyn a'r mentor yn treulio peth amser gyda disgyblion yn trafod arferion, yr amserlen a'r wisg ysgol yn ystod yr wythnos. Cynhelir cyfarfod rhieni ar ddiwedd yr wythnos sydd yn rhoi cyfle i rieni gwrdd â'r tiwtor dosbarth a staff allweddol.

## **Sut alla i gael gwybodaeth am y gweithgareddau trosglwyddo os nad yw fy mhlentyn yn mynd i un o'r ysgolion cynradd sydd yn bwydo Aberconwy?**

Ar ôl i chi lenwi'r ffurfleni mynediad a bod eich plentyn wedi cael lle yn Aberconwy, bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gyda chi yn awtomatig. Byddwn hefyd mewn cysylltiad ag ysgol gynradd eich plentyn yn nhymor gwanwyn blwyddyn 6. Os hoffech gael eich cynnwys ar ein rhestr bostio cyn hyn, cysylltwch â'r ysgol gyda'ch manylion cyswllt.



## **Sut alla i gefnogi fy mhlentyn?**

Byddai yn ddefnyddiol yn y dyddiau cynnar os ydych chi'n gallu helpu'ch plentyn i gynllunio a threfnu ei hunan ar gyfer y diwrnod sydd i ddod nes iddynt ddod i arfer â'r systemau newydd. Edrychwch ar eu hamserlen gyda nhw y noson gynt a sicrhau bod ganddyn nhw'r offer a'r llyfrau cywir yn eu bagiau. Bydd disgyblion yn dechrau defnyddio TEAMS i gwblhau eu gwaith a'u gwaith cartref ac mae'n bwysig eich bod yn eu cefnogi i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas hyn. Cefnogwch eich plentyn i gwrdd â therfynau amser ac i gwblhau eu gwaith cartref hyd eithaf eu gallu. Bydd cynllunio amser a lle i wneud hyn yn gwneud pethau'n haws iddyn nhw. Sicrhewch y bydd arferion amser gwely a diet iach yn rhoi'r dechrau gorau iddynt allu canolbwyntio ac ymgysylltu â'r ysgol yn effeithiol. Cysylltwch â mentor eich plentyn os ydych chi'n teimlo bod angen i chi roi gwybod i ni am rywbeth sy'n poeni eich plentyn. Byddwn ni hefyd yn cysylltu â chi os oes gennym unrhyw bryderon. Mae'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol yn bwysig iawn wrth sicrhau llwyddiant eich plentyn yn yr ysgol.

## **Oes na glybiau ar ol ysgol?**

Mae yna glwb gwaith cartref sy'n rhedeg bob nos tan 4:15yh lle mae gan ddisgyblion ddefnydd o'r cyfrifiaduron a'r rhynggrwyd os oes ei angen arnyn nhw i gwblhau gwaith. Mae'r clwb gwaith cartref wedi'i staffio gan gymorthyddion sydd ar gael i helpu'ch plentyn os yw'n cael trafferth gyda thasg benodol. Mae yna amrywiaeth eang o glybiau eraill yn Ysgol Aberconwy a bydd eich plentyn yn cael gwybod am ddyddiau ac amseroedd gan eu tiwtor dosbarth yn Ysgol Aberconwy. Bydd y rhain fel arfer yn cael eu rhoi ar galendr yr ysgol hefyd. Mae rhai o'r clybiau yn rhedeg amser cinio ac eraill ar ôl ysgol. Rhai enghreifftiau o'r clybiau sydd ar gael yw Crosio, Her F1, clybiau chwaraeon, clwb garddio, leithoedd, Y Caban, a Gwyddbwyll.



## **Faint o waith cartref fydd fy mhlentyn yn ei gael?**

I ddechrau, rhoddir gwaith cartref i'ch plentyn yn eu gwersi DDB a bydd hyn yn cynyddu'n araf dros amser. Mae gwaith cartref ym mlwyddyn 7 wedi'i gynllunio'n ofalus i alluogi'ch plentyn i ddod i arfer â'r holl newidiadau a'r systemau newydd sydd ar waith yn yr ysgol uwchradd. Bydd hyn yn eu cefnogi i ddysgu sut i drefnu eu hunain ac i ddod yn fwy annibynnol wrth iddynt symud i'r ysgol uwchradd.

## **Beth os yw fy mhlentyn yn cael trafferth hefo gwaith cartref?**

Os yw'ch plentyn yn ei chael hi'n anodd i wneud y gwaith mae'n bwysig iawn eu bod yn gweld eu hathro cyn gynted â phosibl. Ceisiwch osgoi gadael hyn i'r funud olaf, os yn bosibl. Gall eich plentyn drafod hyn gyda'r mentor os yw'n poeni a bydd y mentor yn gallu eu cefnogi. Bydd staff yn y clwb gwaith cartref i'w helpu gyda'u gwaith hefyd.

## **Beth ydi DDB?**

Mae DDB yn sefyll am 'Dysgu Drwy Brosiect'. Mae disgyblion blwyddyn 7 yn cylchdroi rhwng pum prosiect gwahanol yn ystod y flwyddyn a byddant yn dysgu ystod o sgiliau newydd ym mhob un o'r prosiectau hyn. Mae'r prosiectau'n cynnwys yr Amgylchedd, Ysgol Goedwig, Robotiaid, China a Gwyliau. Yn y prosiect Robots, er enghraifft, byddant yn datblygu eu sgiliau TGCh, Gwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg a byddant yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau rhaglennu, ymchwil, dylunio, gwneud ac electroneg.

## **Beth sydd yn digwydd os ydi fy mhlentyn yn gorfod gwneud cosb cadw?**

Rhoddir gwybod i rieni ymlaen llaw os byddwn yn cadw eich plentyn ar ôl ysgol a rhoddir tocyn bws iddynt os bydd ei angen i gyrraedd adref. Mae disgyblion sy'n eu cael eu hunain yn y sefyllfa hon yn achosi pryder difrifol i'r ysgol ac i rieni ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei drafod yn eithaf manwl adref os gwelwch yn dda.

# AMSER CINIO YN ABERCONWY

## Sut mae'r amser cinio yn gweithio yn Ysgol Aberconwy?

Gall y disgyblion gael eu cinio yn y ffreutur, yn y bar brechdanau neu o Gaffi 6. Gall y disgyblion eistedd i lawr gyda phryd o fwyd yn y ffreutur neu brynu paninis, baguettes, pizza ac ati o'r bar brechdanau a Chaffi 6 . Mae'r ffreutur a Chaffi 6 ar agor amser egwyl yn ogystal ag amser cinio. Mae ffynnon ddŵr yn y ffreutur lle gall disgyblion lenwi eu poteli eu hunain

## Sut ydw'in talu am ginio fy mhlentyn?

Mae gennym system olion bysedd yn Ysgol Aberconwy. Mae hon yn ffordd wych o helpu disgyblion i reoli eu harian ac i osgoi gorfod ei gario o gwmpas gyda nhw trwy'r dydd. Gall y disgyblion wirio eu balans ar y peiriannau yn y ffreutur a Chaffi 6 yn ôl yr angen. Gall rhieni wneud taliadau uniongyrchol trwy ap yr Ysgol, gall disgyblion ychwanegu darnau arian at eu cyfrif yn ddyddiol neu gall disgyblion roi symiau neu sieciau mwy yn y blwch post yn y ffreutur. Mae darnau arian yn ymddangos ar eu cyfrif ar unwaith ac mae angen postio symiau mwy cyn yr egwyl fel bod yr arian yn ymddangos ar eu cyfrif erbyn amser cinio ar yr un diwrnod. Mae disgyblion yn dewis eu bwyd ac yna'n defnyddio'r peiriant olion bysedd wrth y til.

## Ydi fy mhlentyn yn gallu dod a pecyn bwyd?

Gall disgyblion ddewis prynu eu cinio yn yr ysgol neu gallant ddod â'u pecyn bwyd eu hunain. Gallant newid eu cynlluniau yn ddyddiol. Os yw'ch plentyn yn penderfynu dod â pecyn bwyd, byddant yn gallu ei fwyta yn y ffreutur gyda'r disgyblion eraill neu gallant eistedd ar y byrddau picnic ar yr iard os yw'r tywydd yn braf. Mae rhai disgyblion yn dewis bwyta eu cinio yn Pontio a Tegfan hefyd.

## **Mae gan fy mhlentyn alergeddau?**

Rhennir unrhyw wybodaeth am unrhyw alergeddau sydd gan eich plentyn gyda'r ysgol trwy'r llyfryn Croeso y gofynnwn i rieni blwyddyn 6 ei gwblhau yn nhymor yr haf. Trosglwyddir gwybodaeth am alergeddau i reolwr y ffreutur a chofnodir y manylion ar gyfrif eich plentyn. Bydd hyn yn ymddangos ar y sgrin wrth y til pan fydd eich plentyn yn talu am eu bwyd. Gellir rhannu'r bwydlenni ar gyfer y ffreutur gyda rhieni ymlaen llaw a gellir trafod unrhyw geisiadau penodol sy'n ymwneud ag alergeddau eich plentyn ymlaen llaw hefyd

## **Faint ydi cinio ysgol?**

Mae disgyblion yn gallu prynu 'meal deal' sy'n cynnwys prif bryd, pwdin a diod, ac mae hyn yn costio oddeutu £2.75. Gall disgyblion brynu'r prif bryd yn unig neu gallant brynu baguette neu frechdan a chael yr opsiwn o ddod â'u diod / byrbrydau eu hunain

## **Mae gan fy mhlentyn hawl i ginio am ddim yn yr ysgol. Sut bydd hyn yn gweithio?**

Bydd disgyblion sydd â hawli ginio ysgol am ddim yn defnyddio'r system ol bysedd yn yr un modd â phawb arall ond dim ond amser cinio y gallant brynu eu pryd ysgol am ddim ac nid amser egwyl neu amser brechwast. Gallant brynu 'meal deal' amser cinio. Os hoffech i'ch plentyn allu prynu byrbryd amser egwyl neu frechwast cyn i'r ysgol ddechrau, bydd angen iddynt ychwanegu arian at eu cyfrif at y diben hwn.

# PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB

## **Mae fy mhlentyn yn poeni am fynd ar goll?**

Pan fydd eich plentyn yn cychwyn yn Ysgol Aberconwy, bydd disgyblion blwyddyn 7 eraill yn yr un sefyllfa a bydd angen iddynt ddod o hyd i'w ffordd o amgylch yr ysgol. Mae disgyblion a staff eraill yn gymwynasgar iawn a byddant yn eu cyfeirio i'r man y mae angen iddynt fod os byddant yn mynd ar goll. Byddant yn cael map o'r ysgol a byddant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd helpa drysor ar y diwrnod cyntaf sydd wedi'i gynllunio i'w helpu i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch yr ysgol. Bydd cynorthwyr ar yr iard hefyd yn cwrdd â nhw i ddechrau a byddant yn cael eu tywys i'w hystafelloedd i ddechrau. Dyma un o'r pryderon mwyaf sydd gan ddisgyblion a rydym wedi rhoi llawer o bethau yn eu lle i'w gwneud hi'n haws iddyn nhw. Bydd rhieni'n synnu'n fawr pa mor gyflym maen nhw'n addasu i'w hamgylchedd newydd!

## **Beth ddyliwn i wneud os ydi fy mhlentyn yn absennol?**

Rydym yn falch iawn o bresenoldeb rhagorol disgyblion Ysgol Aberconwy a rydym o hyd yn annog disgyblion i fynychu 100% o'r amser. Mae disgyblion sydd â presenoldeb rhagorol yn rhoi'r cyfle gorau i'w hunain i sicrhau canlyniadau rhagorol ac i ddod yn unigolion hyderus. Mae disgyblion yn cael trafferth gyda grwpiau cyfeillgarwch yn enwedig yn y dyddiau cynnar os ydyn nhw'n absennol o'r ysgol. Os yw'ch plentyn yn rhy sâl i fynychu'r ysgol rydym yn disgwyl i rieni gysylltu â'r ysgol i'n hysbysu o'r rheswm dros yr absenoldeb. Anogir chi i wneud apwyntiadau deintyddol a meddygol arferol y tu allan i oriau ysgo

## **Beth os fydd fy mhlentyn yn methu'r bws/yn hwyr i'r ysgol?**

Bydd angen iddynt ddod fewn drwy'r dderbynfa os ydyn nhw'n hwyr i'r ysgol a bydd mentor eich plentyn yn gwneud cofnod o hyn. Bydd unrhyw bryderon ynghylch hyn yn cael ei drafod gyda teuluoedd.

## **Rydym eisiau mynd ar wyliau teulu yn ystod y tymor. Beth ddyliwn i wneud?**

Yn gyffredinol ni fydd gwyliau teulu yn cael eu caniatáu yn ystod y tymor. Nid yw'r ysgol yn annog rhieni i fynd â'u plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor. Mewn amgylchiadau eithriadol gellir gofyn am ffurflen o dderbynfa'r ysgol a gellir gwneud cais i'r pennaeth.

# **PARATOI**

## **Pa offer sydd ei angen ar fy mhlentyn?**

Bydd angen bag ysgol ar eich plentyn i gario eu llyfrau yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Bydd angen cas pensil arnyn nhw a bydd angen pensiliau, pren mesur, rwber, cwmpawd, onglydd, cyfrifiannell, a pensiliau lliw arnyn nhw. Bydd angen iddyn nhw ddod â'u cit AG ar y diwrnodau mae nhw'n gwneud AG a bydd angen iddyn nhw ddod â'u cynhwysion coginio ar ddiwrnodau maen nhw'n coginio.

## **Allai gael copi o amserlen fy mhlentyn?**

Rhoddir copi o amserlen eich plentyn iddynt yn ystod yr wythnos drosglwyddo i roi ychydig o amser iddynt ddod i arfer ag ef cyn iddynt ddechrau ym mis Medi. Rhoddir copi arall iddynt pan fyddant yn dechrau ym mis Medi. Mae copi o'r amserlen ar gael trwy'r Ap yr Ysgol. Os yw eich plentyn yn colli eu hamserlen byddant yn gallu siarad â'r mentor am gael copi arall. Mae rhai disgyblion yn tynnu llun o'r amserlen ar eu ffon fel eu bod yn gallu cael hyd iddo yn hawdd.

## **Sut mae fy mhlentyn yn cael manylion mewngofnodi i Microsoft/Hwb?**

Bydd disgyblion yn derbyn sticer gyda'u manylion mewngofnodi pan fyddant yn cychwyn yn Ysgol Aberconwy. Dangosir iddynt beth i'w wneud yn eu gwersi Mathemateg a DDB.

## **Ydi fy mhlentyn angen cyfrifiadur a rhyngrwyd i allu cwblhau gwaith cartref?**

Bydd y disgyblion yn dechrau cwblhau ac arbed gwaith yn eu hardal eu hunain ar Office 365 o'r wythnos gyntaf ym Mlwyddyn 7. Bydd angen mynediad i'r rhyngrwyd arnynt i allu cwblhau gwaith cartref ar TEAMS. Mae'n bosibl iddynt gael copiau papur o dasgau os oes angen a byddant yn gallu defnyddio cyfrifiadur yn yr ysgol amser cinio ac yn y clwb gwaith cartref ar ôl ysgol os nad oes ganddynt fynediad gartref. Gofynwn i chi wneud yr ysgol yn ymwybodol os nad oes gan eich plentyn ddyfais neu'r rhyngrwyd gartref.

## **Sut allai gael gwybodaeth am drafnidiaeth?**

Dylai unrhyw wybodaeth ynghylch trafndiaeth ddod yn uniongyrchol o adran drafnidiaeth yr awdurdod lleol. Dylech allu cael y wybodaeth a'r manylion cyswllt ar eu gwefan

## **Sut allai gael gwybodaeth am y wisg ysgol?**

Mae gwybodaeth am y wisg ysgol ar gael ar wefan yr ysgol. Bydd eich plentyn yn gwybod ym mha grŵp y byddant ynddo ar ddechrau mis Gorffennaf fel eich bod chi'n gallu prynu'r crys polo cywir. Mae streipen liw ar goler y crys polo sy'n dibynnu ar ba grŵp y maen nhw yn perthyn iddo.